# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS TAI

## DYDD MERCHER, 23AIN MAI, 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd L.D. Evans [Aelod o'r Bwrdd Gweithredol]

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr G. Williams | - | Rheolwr Asiantaeth Llety |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

Swyddfa'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 2.00 p.m. - 2.10 p.m.

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. LLOFNODI BOD COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 IONAWR 2018 YN GOFNOD CYWIR**

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 24 Ionawr 2018, gan ei fod yn gywir.**

**3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**4. DARPARU LLETY DROS DRO I DEULUOEDD/UNIGOLION DIGARTREF YN Y DYFODOL**

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith y byddai datgelu'r wybodaeth yn yr adroddiad yn tanseilio sefyllfa'r Cyngor o ran trafod telerau â darparwyr allanol ynghylch darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol ac yn gwneud drwg i'w gyllid o bosib. Felly yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn cynnwys cynigion a dewisiadau ar gyfer darparu llety dros dro i deuluoedd/unigolion digartref yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhellion ynghylch darparu llety dros dro i deuluoedd/unigolion digartref yn y dyfodol, fel y nodwyd yn yr adroddiad.**

________________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**